# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2016.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Mark Child | Adran Etholiadol: | West Cross |

| | |
|---|---|
| **Swydd Cyflog Uwch:** | Aelod y Cabinet dros Les a Dinas Iach |

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Cynnal cymorthfeydd stryd mewn nifer o ardaloedd, gan glywed am faterion megis arwyddion stryd, tyllau yn y ffordd, parcio, cyfarpar chwarae plant, baw cŵn, a nifer o faterion eraill ac yna eu codi gyda'r cyngor, gan gynnwys problemau unigolion hefyd.

Cynnal cymorthfeydd rheolaidd i etholwyr, ymdrin â materion tai, datblygu, gwasanaethau cymdeithasol, cynnal a chadw strydoedd a nifer o faterion eraill sy'n ymwneud â'r cyngor, gan roi cyngor a chymorth pryd bynnag y bo modd.

Cyfarfod yn rheolaidd â swyddogion Swyddfa Dai West Cross i drafod a datrys materion sy'n ymwneud â lles tenantiaid a'r stad o dai yn West Cross.

Cyfarfod â busnesau'n lleol i weithio i helpu i'w cynnal a'u helpu i ychwanegu at yr ardal.

Gweithio gyda phwyllgor newydd Canolfan Gymunedol Neuadd Baywood i helpu i lansio'r cyfleuster hwn yn llwyddiannus yn lleol.

Gweithio i gynyddu diogelwch o gwmpas yr ysgol leol, gan gynnwys terfynau 20mya, llinellau melyn, cynyddu patrolau parcio, arwyddion, a cheisio gwneud rhieni'n ymwybodol o'r peryglon maent yn eu creu (trwy yrru) a'r manteision i'w plant gerdded i'r ysgol, gan gynnwys y Garreg Wen, Newton, a Llwynderw.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Penodiadau | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Cabinet | 14 | / | 15 | 93 | % |
| Fforwm Cynghorau Cymuned/Tref | 0 | / | 3 | 0 | % |
| Y Cyngor | 14 | / | 18 | 78 | % |
| Grŵp Cynghori Datblygu | 2 | / | 5 | 40 | % |
| Panel Ariannu Allanol | 2 | / | 7 | 29 | % |
| Grŵp Partneriaeth AoHNE Gŵyr | 2 | / | 3 | 67 | % |
| Cronfa Datblygu Cynaliadwy | 3 | / | 4 | 75 | % |
| **CYFFREDINOL** | **38** | **/** | **56** | **68** | **%** |

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Grange, gan helpu'n enwedig gyda chyllid a materion llywodraethu yn ystod y flwyddyn, Is-gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gyfun yr Esgob Gore gyda chyfrifoldeb arbennig dros fathemateg a diogelu, ac aelod o'r Pwyllgor Cyllid.

Aelod o Grŵp Partneriaeth AoHNE Gŵyr ac ar ei Is-bwyllgor Grantiau.

Aelod o Fwrdd Pwll Cenedlaethol Cymru.

Mynd i Fforwm Dinas Iach y DU a chymryd rhan ynddo.

Cadeirydd Fforwm Dinas Iach Abertawe lle mae'r cyngor, yr awdurdod iechyd, yr heddlu, y gwasanaeth tân, y prifysgolion, y trydydd sector ac eraill yn ceisio gwella iechyd a lles holl ddinasyddion Abertawe, trwy ei fentrau ei hun a thrwy gyfarwyddyd gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Abertawe.

Aelod o Fwrdd Gwasanaethau Lleol Abertawe.
Aelod o Fforwm Partneriaeth Bae'r Gorllewin.
Aelod o Bartneriaeth Abertawe Mwy Diogel.
Aelod o Bartneriaeth Bioamrywiaeth Abertawe.
Cynghorydd â chyfrifoldeb dros fioamrywiaeth yn Abertawe.
Cymryd rhan wrth ddethol a chyflwyno Gwobrau Chwaraeon Blynyddol Abertawe.

Rhoi tystiolaeth mewn nifer o gyfarfodydd craffu.

Cyfarfod â nifer o glybiau a chymdeithasau chwaraeon am ddiogelu a gwella'u gallu i dyfu a galluogi eraill i gymryd rhan, gan gynnwys beicio, paffio a chriced.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Mynd ati i hyrwyddo menter Cydlynu'r Ardal Leol, gan gynnwys penodi'r 3 chyntaf yn Abertawe, cynnal fforwm sy'n cyflwyno'r fenter i'r holl bartïon â diddordeb yn Abertawe, gyda chyfarfodydd dilynol yn llwyddo i gynyddu ymrwymiad partneriaid mewn Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG). Nod hyn yw gwella ansawdd bywyd pobl a chydnerthu cymunedau ac, o ganlyniad, eu hangen am ymyriad allanol.

Sefydlu Gweithgor y Blynyddoedd Cynnar i wella dechrau plant mewn bywyd yn Abertawe, gydag aelodaeth eang, gan gynnwys y cadeirio croesawgar iawn gan Andrew Davies, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (PABM).

Parhau i weld twf y grwpiau cyfeillion parciau a rhwydweithio ar draws Abertawe.
Lansio Bae Caswell fel traeth di-fwg cyntaf Abertawe (a'r 2il yn y DU), fel rhan o bolisi i gael gwared ar smygu sigaréts mewn amgylcheddau teuluol, ac ychwanegu at lendid ein traethau.

Bob amser yn ychwanegu at y safleoedd blodau gwyllt yn Abertawe, a siarad â sefydliadau ar draws y DU sydd am gopïo'r syniad hwn.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Euthum i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

25/01/2016 – Amddiffyn Plant (Llywodraethwyr)
05/11/2015 - Cyflwyniad i Gynnwys y Gymuned
16/07/2015 - Recriwtio a Dethol

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Aelod o Grŵp Cynghori Canol y Ddinas, lle rwy'n ceisio sicrhau canol dinas iach. Mae hynny'n golygu llai o geir, lle i feicio a cherdded yn ddiogel, mannau gwyrdd a pharciau bach, dyluniad lle mae pobl yn teimlo'u bod yn gweddu iddo, yn ogystal â bod yn ysbrydolus.

Mynd i Wobrau Cymdeithas Rheolwyr Canol Trefi a chael Baner Borffor, ynghyd â statws “tra chymeradwy” ar gyfer ein cynnig canol dinas, sy'n cynnwys diogelwch, amrywiaeth ac ansawdd.

Mynd i Weithdy Polisi Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Cymryd rhan mewn sesiwn glanhau traeth yn Abertawe, yna cefais fy nhywys ar daith gerdded dan fwgwd trwy ganol y ddinas i brofi'r anawsterau mae pobl ddall a phobl â golwg rhannol yn dod ar eu traws.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Uwch: £32,000 Aelod y Cabinet dros Les a Dinas Iach

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| **Dyddiad**: | 20.05.2016 |
|---|---|